# Tynnu sylw at AI cynhyrchiol

Mae AI cynhyrchiol yn cyfeirio at dechnoleg a all greu cynnwys newydd, fel testun a delweddau, trwy ddysgu o ddata sy'n bodoli'n barod. Mae AI cynhyrchiol yn gallu cynhyrchu cynnwys sy'n debyg iawn i feddwl a chreadigrwydd person, sy'n ei wneud yn fwyfwy poblogaidd ymhlith plant ar gyfer eu dysgu a'u hobïau creadigol.

## Risgiau posibl

### Lledaenu camwybodaeth a thwyllwybodaeth

Gall AI cynhyrchiol gynhyrchu gwybodaeth argyhoeddiadol ond ffug, a allai gamarwain unrhyw un sy'n dod ar ei thraws. Mae hyn yn peri pryder arbennig i blant a phobl ifanc sy'n dibynnu ar ddeallusrwydd artiffisial ar gyfer gwaith cartref neu ymchwil heb ddeall pwysigrwydd gwirio ffeithiau.

### Rhagfarn a phryderon moesegol

Nid yw offer AI cynhyrchiol yn gallu asesu gwirionedd na rhagfarn mewn setiau data felly gallan nhw gynhyrchu gwybodaeth gamarweiniol neu ragfarnllyd yn anfwriadol, a all arwain at gynnwys amhriodol neu annheg. Mae hyn yn golygu y gall plant a phobl ifanc sy'n defnyddio deallusrwydd artiffisial ar gyfer ymchwil gael persbectif camarweiniol neu gyfyngedig ar rai pynciau.

### Gorddibyniaeth ar ddeallusrwydd artiffisial

Gallai plant a phobl ifanc ddod yn or-ddibynnol ar offer AI ar gyfer creadigrwydd a datrys problemau, gan atal eu sgiliau meddwl beirniadol a chreadigol eu hunain o bosibl. Gall y ddibyniaeth hon lesteirio gallu pobl ifanc i ddysgu, creu a datrys problemau'n annibynnol.

## Cyngor ymarferol

### Gwirio ffeithiau popeth

Siaradwch â'ch plentyn am sylwi ar gamwybodaeth a gwirio ffeithiau sy'n cael eu cynhyrchu gan ddeunyddiau AI cynhyrchiol.

### Hyrwyddo meddwl beirniadol

Ewch ati i annog sgyrsiau agored am y rhagfarnau posibl mewn allbynnau AI, gan feithrin amgylchedd lle gall plant a phobl ifanc asesu'n feirniadol y cynnwys y maen nhw'n dod ar ei draws ar offer AI cynhyrchiol.

### Cofiwch mai offeryn yw deallusrwydd artiffisial, nid dewin

Atgoffwch eich plentyn i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial fel rhywbeth sy'n ategu ei waith dysgu a chreadigrwydd yn hytrach na rhywbeth a all ddatrys problemau neu gyflawni eu hanghenion mewn ffordd wefreiddiol.

Am ragor o wybodaeth

Hwb®

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

OGL © Hawlfraint y Goron / Crown copyright 2025 WG51495